

# Adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol / Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar gyfer y Bil Cam-drin Domestig

23 Chwefror 2021

## 1. Y cefndir

1. Ar 3 Awst 2020, gosododd y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Cam-drin Domestig sydd gerbron Senedd y DU ar hyn o bryd. Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar 20 Ionawr 2021.
2. Ar 14 Medi 2020, cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol i'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ("y Pwyllgor") a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i'w drafod. Gosododd y Pwyllgor Busnes derfyn amser ar gyfer cyflwyno adroddiad, sef 5 Tachwedd 2020. Gwnaethom drafod y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol am y tro cyntaf yn ein cyfarfod ar 28 Medi. Ar 26 Ionawr 2021, cytunodd y Pwyllgor Busnes i ymestyn y terfyn amser ar gyfer cyflwyno adroddiad i 25 Chwefror 2021.
3. Caiff y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol eu trafod yn y Cyfarfod Llawn ar 2 Mawrth 2021.



## 2. Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol

4. Mae paragraffau 3 i 5 o'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn crynhoi'r Bil a'i amcanion polisi. Mae paragraffau 6 yn nodi'r darpariaethau yn y Bil y ceisir cydsyniad ar eu cyfer. Mae paragraffau 8 i 12 yn nodi barn Llywodraeth Cymru am y darpariaethau sy'n cael eu gwneud mewn Bil yn y DU, yn hytrach na thrwy ddeddfwriaeth y Senedd.

5. Yn y Memorandwm Atodol, mae paragraffau 6 i 9 yn nodi'r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa ers cyhoeddi'r Memorandwm gwreiddiol. O ganlyniad i drafodaethau rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru a gwelliannau dilynol a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU, ni ofynnir am gydsyniad mwyach ar gyfer cymalau 3 a 73. O ganlyniad, nid ydym yn manylu ar y cymalau hyn yn yr adran nesaf, er iddynt gael eu rhestru yn y Memorandwm gwreiddiol.

## 3. Darpariaethau yn y Bil y ceisir cydsyniad ar eu cyfer

6. Ceisir cydsyniad y Senedd ar gyfer cymalau 65, 66 a 68 oherwydd eu bod yn ymwneud â maes datganoledig, sef cam-drin domestig.

7. Mae cymal 65 yn deddfu ar gyfer yr egwyddor (a bennwyd yn achos R. v. Brown [1993] 2 All ER 75), na fyddai cydsyniad i niwed difrifol er boddhad rhywiol yn amddiffyniad a, thrwy ymestyniad, na fyddai cydsyniad yn gymwys ychwaith pan fyddai gweithgarwch rhywiol o'r fath yn arwain at farwolaeth y dioddefwr.

8. Mae cymal 66 yn un o'r cymalau Rhan 6 a fewnosodwyd yn y Bil er mwyn hybu cadarnhad y DU o 'Gonfensiwn Cyngor Ewrop ar Drechu Trais yn erbyn Menywod a Thrais Domestig' ("Confensiwn Istanbwl") gan y Deyrnas Unedig. Mae cymal 66(1) o'r Bil yn estyn cwmpas troseddau penodol yn erbyn y person sy'n golygu:

- os yw trosedd o'r fath wedi'i chyflawni y tu allan i'r DU gan wladolyn o'r DU neu berson sy'n preswyllo fel arfer yn y DU, a

- bod y weithred yn drosedd o dan y gyfraith sydd mewn grym yn y wlad honno, a phe bai'n cael ei gwneud yng Nghymru a Lloegr, y byddai'n drosedd yng Nghymru a Lloegr,

yna mae'r person hefyd yn euog yng Nghymru a Lloegr o'r drosedd honno. Y troseddau sy'n cael eu cwmpasu gan gymal 66(1) yw: llofruddiaeth, dynladdiad, troseddau o dan adrannau 18, 20 neu 47 (troseddau sy'n ymwneud â niwed neu anaf corfforol) o Ddeddf Troseddau yn Erbyn y Person 1861 a throseddau o roi gwenwyn o dan adrannau 23 neu 24 o'r Ddeddf honno.

**9.** Mae cymal 68, fel cymal 66, wedi'i gynnwys er mwyn hybu cadarnhad y DU o Gonfensiwn Istanbwl. Mae cymal 68 o'r Bil, a rhan 1 o Atodlen 2 iddo, yn diwygio Deddf Diogelu rhag Aflonyddu 1997, Deddf Troseddau Rhywiol 2003 a Deddf Troseddu Difrifol 2015 er mwyn cael yr un effaith â chymal 66(1) mewn perthynas â'r troseddau o wneud i bobl fod ag ofn trais, stelcian sy'n cynnwys ofn trais neu ddychryn neu ofid difrifol, troseddau rhywiol penodol a restrir yn Atodlen 2 i Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003, ac ymddygiad sy'n ymwneud â gorfodi neu reoli o fewn perthynas agos neu deuluol.

## 4. Y rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn

**10.** Mae paragraffau 8 i 12 o'r Memorandwm yn nodi rhesymeg Llywodraeth Cymru dros wneud y darpariaethau hyn drwy ddeddfwriaeth y DU yn hytrach na thrwy ddeddfwriaeth y Senedd. Maent yn nodi, mewn perthynas â chymal 65 gan ei fod yn gwneud "newidiadau sylweddol a phwysig", ei bod yn "hanfodol ei fod yn cael ei weithredu ar draws awdurdodaeth Cymru a Lloegr ar yr un pryd." Mewn perthynas â chymalau 66 a 68, mae Llywodraeth Cymru yn dibynnu ar Lywodraeth y DU yn cadarnhau darpariaethau Confensiwn Istanbwl.

## 5. Trafodaeth a chasgliad y Pwyllgor

**11.** Yn dilyn ein hystyriaeth gychwynnol o'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, gwnaethom ysgrifennu ar y cyd â'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i ofyn am ragor o eglurder ar faterion cymhwysedd deddfwriaethol. [Nododd gohebiaeth gan y Dirprwy Weinidog, dyddiedig 16 Rhagfyr 2020:](#)

"Fy safbwynt i o hyd yw bod angen cydsyniad ar gyfer cymalau 65, 66 a 68 a Rhan 1 o Atodlen 2 am eu bod yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y

Senedd. Maent yn cynnwys addasiadau i droseddau y gallai'r Senedd eu gwneud yn rhannol. Mae deddfwriaeth i roi sylw i rwymedigaethau rhyngwladol a'u gweithredu, fel rhwymedigaethau confensiwn Istanbwl, hefyd yn dod o fewn cymhwysedd y Senedd lle mae deddfwriaeth angenrheidiol yn perthyn i gylch gwaith meysydd datganoledig.”

**12.** Ailddatganwyd y safbwynt hwn yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ym mharagraff 14. Rydym yn nodi hyn, a chytunwn fod angen y cydsyniad deddfwriaethol mewn perthynas â chymalau 65, 66 a 68. Rydym hefyd yn nodi rhesymau Llywodraeth Cymru dros wneud darpariaeth mewn Bil y DU, yn hytrach na deddfwriaeth y Senedd, ac yn seiliedig ar hyn, nid oes gennym wrthwynebiad i gytuno â'r Cynnig.